



Deiliaid Pasys Adeiladu

2 Tachwedd 2021

Cais am wybodaeth

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 22 Hydref, pan wnaethoch ofyn,

I am a freelance journalist and am investigating the security of Senedd Members and other elected officials.

Please can you tell me:

- 1. How many people hold passes to the Senedd, Ty Hywel and any other Welsh Parliament building who are neither employees of the parliament or a Member.*
- 2. What are the measures taken to ensure pass holders are not a threat to Senedd Members? And*
- 3. What security checks have been carried out on non member/Senedd staff?*

Gweler ein hymateb i'ch cais isod.

- 1. Faint o bobl nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y Senedd ac nac ydynt yn Aelodau, sydd â phàs i'r Senedd, Tŷ Hywel, ac unrhyw un o adeiladau eraill Senedd Cymru.*

Mae pàs gan 567 o bobl

- 2. Pa fesurau sydd ar waith i sicrhau nad yw deiliaid pasys yn fygythiad i Aelodau o'r Senedd? A*

Rhaid i bawb fynd drwy broses Fetio Diogelwch Cenedlaethol cyn cael pàs.

- 3. Pa archwiliadau diogelwch sydd wedi'u cynnal mewn perthynas â'r rhai nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y Senedd ac nac ydynt yn Aelodau?*

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Mae pobl nad ydynt yn Aelodau o'r Senedd ac nad oes ganddynt bäs yn cael eu trin fel ymwelwyr a chyhoeddir gwybodaeth am yr hyn a fydd yn digwydd wrth iddynt gyrraedd yr ystâd ar ein **gwefan**.

Yn gywir

Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth Senedd Cymru

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn, cysylltwch â mi. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais am ryddid gwybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu anfonwch lythyr i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF